# Eich Datganiad Buddion Blynyddol

## Nodiadau Canllaw

# Your Annual Benefit Statement

## Notes of Guidance

# Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn wedi ei gynllunio i gyd-fynd â'r **Datganiad am eich Buddion Blynyddol 2019** dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Mae'n cynnwys y nodiadau canllaw sydd eu hangen arnoch i ddeall gwahanol adrannau o'r datganiad. Mae'r llyfryn wedi cael ei baratoi yn unol â gofynion rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Datgelu Gwybodaeth) 2013 a rheoliadau perthnasol y Cynllun. Ni all y nodiadau hyn gwmpasu pob amgylchiad personol ac os bydd unrhyw anghydfod ynghylch eich datganiad, bydd y ddeddfwriaeth briodol yn cario'r dydd. **NID** yw'r nodiadau hyn yn rhoi unrhyw hawliau cytundebol na statudol, ac maent wedi cael eu darparu i roi gwybodaeth yn unig. **Cyfeiriwch at y nodiadau hyn yn ofalus wrth ddarllen eich datganiad.**

## Adran 1: Manylion Personol

Gwnewch yn siŵr fod y manylion a ddangosir yn gywir. Os nad ydyn nhw, defnyddiwch y manylion cyswllt a ddangosir o dan **Adran 3** i roi gwybod am unrhyw gamgymeriadau.

### Dyddiad ymuno'r CPLlL yn y Gyflogaeth hon

Gwnewch yn siŵr fod y dyddiad a ddangosir yn gywir. Sylwch mai dyma'r dyddiad pan ddaru chi ymuno â'r Cynllun. Os ydi hwn yn anghywir, defnyddiwch y manylion cyswllt a ddangosir o dan **Adran 3** i roi gwybod am y camgymeriad.

### Adran o'r CPLlL fel yr oedd ar 31/03/2019

Mae dwy Adran i'r CPLlL 2014. Mae eich adran chi'n cael ei dangos yma. Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn cyfrannu at y **Brif** adran ac yn cronni **buddion llawn**, ond mae dewis gennych i leihau eich cyfradd gyfrannu i 50% ac yna adeiladu yn ystod y cyfnod hwn hanner y lefel o bensiwn seiliedig ar Gyfartaledd eich enillion wedi'u hadbrisio yn ystod eich Gyrfa (CG). Fodd bynnag, mae yswiriant salwch a buddion marwolaeth llawn yn cael ei gynnal wrth gyfrannu at adran 50/50.

Os ydych wedi dewis gwneud hyn, byddwch yn cyfrannu at adran **50/50** y cynllun ac, o ganlyniad, bydd eich pensiwn CG yn cael ei gyfrifo fel 1/98fed o'ch tâl CG ar gyfer y cyfnod hwn (yn hytrach na'r 1/49fed uwch o'ch tâl pensiynadwy CG os ydych yn y Brif adran). Os ydych yn yr adran 50/50 ar 31 Mawrth 2019, mae'r rhagamcan i'ch Oedran Pensiwn Arferol (OPA), fel y caiff ei ddangos o dan **Adran 7**, wedi cael ei gyfrifo ar 1/98fed.

# Introduction

This booklet has been designed to supplement your Local Government Pension Scheme (LGPS) **Annual Benefit Statement (ABS) 2019**. It contains the necessary notes of guidance to explain the various sections of the statement. It has been prepared in accordance with the requirements of the Occupational and Personal Pension Schemes (Disclosure of Information) Regulations 2013 and the relevant Scheme regulations. These notes cannot cover every personal circumstance and in the event of any dispute over your statement, the appropriate legislation will prevail. They do **NOT** confer any contractual or statutory rights and are provided for information purposes only. **Please refer to these notes whilst carefully reading your statement.**

## Section 1: Personal Details

Please check that the details shown are correct. If not, please use the contact details shown under **Section 3** to report any inaccuracies.

### Date Joined LGPS in this Employment

Please check that the date shown is correct. Note that this is the date that you have joined the Scheme. If incorrect, please use the contact details shown under **Section 3** to report any inaccuracies.

### Section of the LGPS as at 31/03/2019

There are two Sections to the LGPS 2014. Your section is shown here. Most members contribute to the **Main** section and build **full benefits**, but you have the option to reduce your contribution rate to 50% to then build up half the level of CARE pension during this period. However, full ill health and death cover is maintained whilst contributing to the 50/50 section.

If you have elected to do so, you will contribute to the **50/50** section of the scheme and as a result, your CARE pension will have been calculated as 1/98th of your CARE pensionable pay for this period (as opposed to the higher 1/49th of your CARE pensionable pay if in the Main section). If in the 50/50 section as at 31 March 2019, the projection to your Normal Pension Age (NPA), as shown under **Section 7**, has been calculated at 1/98th.

# Adran 1: Parhad

**Adran o'r CPLlL fel yr oedd ar 31/03/2019**
Bydd eich Cyflogwr yn eich ailgofrestru ym Mhrif adran y cynllun ar y dyddiad ailgofrestru, ar yr amod nad ydych wedi ailymuno â'r Brif adran yn y cyfamser. Dyddiad ailgofrestru eich cyflogwr yw trydydd pen-blwydd eu dyddiad Cofrestru Awtomatig.

# Adran 2: Tâl Pensiynadwy seiliedig ar Gyfartaledd eich Enillion-Wedi'u-Hadbrisio yn ystod eich Gyrfa (CG) fel yr oedd ar 31/03/2019

Sylwch **FOD RHAID I CHI WNEUD YN SIŴR** fod eich Tâl Pensiynadwy Cyfartaledd Gyrfa yn gywir; fel arall, efallai y bydd eich buddion Cyfartaledd Gyrfa wedi cael eu cyfrifo'n anghywir. Os ydych yn credu bod eich Tâl Pensiynadwy seiliedig ar eich Enillion-Wedi'u-Hadbrisio yn ystod eich Gyrfa yn anghywir, defnyddiwch y Manylion Cyswllt a ddangosir o dan **Adran 3** i gyflwyno eich ymholiad. **Sylwch y byddwch yn colli'r hawl i apelio pe baech yn methu nodi unrhyw anghywirdeb o fewn 6 blynedd.**

Mae buddion Cyfartaledd eich Enillion-Wedi'u-Hadbrisio yn ystod eich Gyrfa (CG) yn seiliedig ar y **tâl pensiynadwy gwirioneddol** ddaru chi ei dderbyn yn ystod Blwyddyn y Cynllun (o 1 Ebrill i 30 Mawrth), a chyfeirir ato fel eich **Tâl Pensiynadwy seiliedig ar eich Enillion-Wedi'u-Hadbrisio yn ystod eich Gyrfa**. O dan ddiffiniad tâl Cynllun 2014, mae pob goramser ac oriau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn eich Tâl Pensiynadwy seiliedig ar eich Enillion-Wedi'u-Hadbrisio yn ystod eich Gyrfa. Os ydych wedi derbyn tâl is neu ddim tâl o gwbl yn ystod blwyddyn y cynllun,
oherwydd absenoldeb salwch neu anaf, absenoldeb yn gysylltiedig â phlant neu absenoldeb yng ngwasanaeth y lluoedd wrth gefn, bydd eich tâl wedi cael ei seilio ar eich Tâl Pensiynadwy Tybiedig (TPT), sef cyfartaledd o'r tâl pensiynadwy a gafwyd yn ystod y **3 mis cyflawn** (neu gyfnod o 12 wythnos os telir yn wythnosol) cyn i chi ddechrau'r cyfnod o dâl is neu ddim tâl o gwbl. Er mwyn cyfrifo eich pensiwn Cyfartaledd Gyrfa yn erbyn y gyfradd briodol (yr 1/49fed uchaf os ydych yn y Brif adran a'r 1/98fed isaf os ydych yn adran 50/50), mae eich Tâl Pensiynadwy seiliedig ar eich Enillion-Wedi'u-Hadbrisio yn ystod eich Gyrfa wedi cael ei rannu'n gyfrannol (Prif Adran a/neu Adran 50/50) os ydych wedi cyfrannu **yn nwy ran** y cynllun yn ystod Blwyddyn y Cynllun.

# Adran 3: Manylion Cyswllt

Defnyddiwch y manylion hyn i gael ateb i unrhyw ymholiadau sydd gennych.
E-bost: Pensiynau@caerdydd.gov.uk
Ffon: 029 2087 2334
Post: Y Tîm Pensiynau, Ystafell 252, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10

# Section 1: Continued

**Section of the LGPS as at 31/03/2019**
Your Employer will re-enrol you into the Main section of the scheme on their re-enrolment date, providing you have not re-joined the Main section in the meantime. Your Employer's re-enrolment date is the third anniversary of their staging date under Automatic Enrolment.

# Section 2: CARE Pensionable Pay as at 31/03/2019

Please note that **YOU MUST CHECK** your CARE Pensionable Pay is correct, otherwise your CARE benefits may have been calculated incorrectly. If you believe your CARE Pensionable Pay to be incorrect, please use the Contact Details shown under **Section 3** to raise your enquiry. **Note that you will lose the right of appeal should you fail to identify any inaccuracy within 6 years.**

Your Career Average Revalued Earnings (CARE) benefits are based on the **actual pensionable pay** that you have received during the Scheme Year (from 1 April to 31 March), referred to as your **CARE Pensionable Pay**. Under the 2014 Scheme definition of pay, all overtime and additional hours are included in your CARE Pensionable Pay.

If you have received reduced or nil pay during the scheme year, due to sickness / injury, child-related leave or reserve forces service leave, your pay will have been based on your Assumed Pensionable Pay (APP), which is an average of the pensionable pay received during the **3 complete months** (or 12 week period if weekly paid) before you entered the reduced / nil pay period.

In order to calculate your CARE pension against the appropriate rate (the higher 1/49th if in the Main section and lower 1/98th if in the 50/50 section), your CARE Pensionable Pay has been proportionately split (Main Section and / or 50/50 Section) if you have contributed to the **both sections** of the scheme during the Scheme Year.

# Section 3: Contact Details

Please use these contact details to resolve any queries you may have.
Email: pensions@cardiff.gov.uk
Phone: 029 2087 2334
Write: Pensions Team, Room 252 , County Hall, Atlantic Wharf, Cardiff, CF10 4UW

## Rhan 4: Lwfans Blynyddol (LB)

Y Lwfans Blynyddol (LB) yw'r uchafswm y gall eich buddion pensiwn gynyddu yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill tan 31 Mawrth heb orfod talu treth ychwanegol. Mae'r terfyn hwn wedi cael ei osod yn **£40,000** ers 1 Ebrill 2014, ond roedd yn arfer bod yn £50,000. Os bydd eich **Swm Mewnbwn Pensiwn** (SMP) yn fwy na'r gwerth hwn, efallai y bydd treth ychwanegol yn ddyledus. Fodd bynnag, gall unrhyw lwfans na ddefnyddiwyd o'r **3 blynedd** blaenorol gael ei ddefnyddio i'w osod yn erbyn y cynnydd hwn. Dylech hefyd gymryd i ystyriaeth unrhyw fuddion o bensiwn arall a allai fod gennych wrth asesu eich Swm Mewnbwn Pensiwn (SMP), gan gynnwys unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

Sylwch fod unrhyw CGY mewnol rydych wedi'i dalu o 1 Ebrill tan 31 Mawrth **WEDI** cael ei gynnwys wrth gyfrifo'r LB rydych wedi'i ddefnyddio hyd at **5 Ebrill 2019** yn sgil eich buddion yn y CPLlL. Bydd buddion sy'n deillio o flynyddoedd ychwanegol, trosglwyddiadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod mewnbwn pensiwn (CMB) blaenorol a debydau pensiwn yn ystod cyfnod pensiwn blaenorol i gyd wedi cael eu cynnwys. Os ydych yn credu y bydd y LB yn effeithio arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

## Rhan 4: A fydd y Lwfans Blynyddol yn debygol o effeithio arnaf i?

Ni fydd y codiant treth ar yr LB yn effeithio ar y rhan fwyaf o bobl oherwydd ni fydd gwerth cynilion eu pensiwn yn codi'n uwch na £40,000 mewn blwyddyn neu, os gwna, mae'n debygol y bydd ganddynt rywbeth i'w gario ymlaen o flynyddoedd blaenorol. Mae'n fwyaf tebygol yr effeithir arnoch:

- os oes gennych lawer o aelodaeth cynllun a'ch bod yn derbyn codiad tâl sylweddol, a/neu;
- os ydych yn talu lefel uchel o gyfraniadau ychwanegol, a/neu;
- os ydych yn ennill tâl mawr, a/neu;
- os ydych yn trosglwyddo hawliau pensiwn i'r CPLlL o gynllun pensiwn blaenorol dan reolau trosglwyddo clwb yn y sector cyhoeddus a bod eich tâl (cyfwerth â llawn amser) wrth ymuno â'r CPLlL rywfaint yn uwch na'r tâl yr oeddech yn ei ennill pan adawsoch y cynllun blaenorol, a/neu;
- os ydych yn cyfuno buddion pensiwn blaenorol dan y CPLlL a oedd wedi cronni yn rhan derfynol eich tâl gyda'r CPLlL gyda chyfrif eich pensiwn cyfredol a bod eich tâl (cyfwerth â llawn amser) wedi codi'n sylweddol er pan adawsoch ac ailymuno â'r cynllun, a/neu;
- os ydych wedi cymryd eich buddion hyblyg ar neu ar ôl 6 Ebrill 2015.

## Section 4: Annual Allowance (AA)

The Annual Allowance (AA) is the maximum amount that your pension benefits can increase during the period from 1 April to 31 March without incurring an excess tax charge. This limit is currently set at **£40,000** from 1 April 2014, but was previously £50,000. Should your **Pension Input Amount** (PIA) exceed this value, an excess tax charge may be levied.

However, any carry forward from the previous **3 years** can be used to offset this increase. You should also take into account any other pension benefit that you may have when assessing your PIA, including any Additional Voluntary Contributions (AVC).

Please note that any in-house AVC that you have paid from 1 April to 31 March **HAS** been included when calculating the AA you have used up to **5 April 2019** on your LGPS benefits. Benefits arising from added years, transfers received in a previous pension input period (PIP) and pension debits ordered in a previous PIP are also included. If you believe that you are going to be affected by the AA limit, please contact the Pension Fund.

## Section 4: Am I likely to be affected by the Annual Allowance?

Most people will not be affected by the AA tax charge because the value of their pension saving will not increase in a year by more than £40,000, or, if it does they are likely to have carry forward from previous years. You are most likely to be affected if:

- you have a lot of scheme membership and you receive a significant pay increase, and/or;
- you pay a high level of additional contributions, and/or;
- you are a higher earner, and/or;
- you transfer pension rights into the LGPS from a previous public sector pension scheme under the preferential club transfer rules and your salary (full time equivalent) upon joining the LGPS is somewhat higher than the salary you earned when you left the previous scheme, and/or;
- you combine a previous LGPS pension benefit that was built up in the final salary section of the LGPS with your current pension account and your salary (full time equivalent) has increased significantly since leaving and re-joining the scheme, and/or;
- you have accessed flexible benefits on or after 6 April 2015.

## Adran 4: Sut y mae'r Lwfans Blynyddol yn cael ei gyfrifo?

Mae'r codiad yng ngwerth cynilion eich pensiwn yn y CPLlL mewn blwyddyn yn cael ei fesur drwy gyfrifo gwerth eich buddion yn union cyn dechrau cyfnod y mewnbwn pensiwn blaenorol (CMP), gan godi gwerth drwy chwyddiant ac yna drwy'i gymharu â gwerth eich buddion ar ddiwedd cyfnod mewnbwn y pensiwn (CMP). Y CMP yw'r cyfnod yn ystod pryd y caiff twf eich pensiwn ei fesur. (O 6 Ebrill 2016, bydd pob CMP ar gyfer yr holl gynlluniau pensiwn yn cydredeg â'r flwyddyn drethi - 6 Ebrill i'r 5 Ebrill. Cyn 2016/2017, y CMP ar gyfer CPLlL oedd 1 Ebrill tan Fawrth 31, <u>ac eithrio ar gyfer 2015/2016 pan oedd rheolau dros dro arbennig mewn grym).</u>

Yn y CPLlL, caiff gwerth buddion eich pensiwn ei gyfrifo drwy luosi swm eich pensiwn blynyddol gydag 16 ac ychwanegu unrhyw lwmp swm sy'n ddyledus i chi'n awtomatig o'r cynllun pensiwn ynghyd ag unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) a dalwyd gennych chi neu eich cyflogwr yn ystod y flwyddyn.

**SYLWER bod eich SMP fel yr oedd ar 5 Ebrill 2019 wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio eich tâl pensiynadwy fel yr oedd ar <u>31 Mawrth 2019</u>.**

Os yw'r gwahaniaeth yng ngwerth y buddion pensiwn ar ddiwedd y CMP llai gwerth eich buddion pensiwn yn union cyn dechrau'r CMP (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant), yn fwy na therfyn y LB, yna efallai y byddech yn agored i dalu treth. Mae'n bwysig nodi bod yr asesiad ar gyfer y LB yn cwmpasu unrhyw fuddion pensiwn a allai fod gennych tra oeddech yn aelod actif yn ystod y flwyddyn, nid yn unig buddion yn y CPLlL.

Er enghraifft, pe bai'r cynnydd yng ngwerth eich buddion yn y CPLlL wedi eu cyfrifo i fod yn £30,000 yn 2017/18 pan oedd terfyn y LB yn £40,000 ond eich bod hefyd wedi cael cynnydd o £15,000 yng ngwerth buddion pensiwn eraill yn yr un flwyddyn, byddai hynny'n golygu eich bod wedi cael cyfanswm o gynnydd mewn buddion pensiwn o £45,000.

Os nad oedd gennych ddim i'w gario trosodd, byddech yn agored i dalu treth am y swm sydd wedi mynd dros derfyn y LB, hyd yn oed pe bai'n ymddangos ar yr wyneb nad oeddech wedi mynd dros derfyn eich LB yn y naill gynllun na'r llall.

## Section 4: How is the Annual Allowance calculated?

The increase in the value of your pension savings in the LGPS in a year is calculated by working out the value of your benefits immediately before the start of the PIP, increasing the value by inflation and then comparing it with the value of your benefits at the end of the PIP. The PIP is the period over which your pension growth is measured. (From 6 April 2016, PIPs for all pension schemes were aligned with the tax year - 6 April to 5 April. Prior to the 2016/17 the PIP for the LGPS was 1 April to 31 March, <u>except for 2015/16, where special transitional rules apply)</u>.

Your Pension Input Amount (PIA) is then calculated by multiplying the amount of your LGPS annual pension by 16 and adding any lump sum you are automatically entitled to, plus any AVCs you have paid during the year.

**PLEASE NOTE that your PIA as at 5 April 2019 has been calculated with reference to your pensionable pay as at <u>31 March 2019</u>.**

If the difference in the value of pension benefits at the end of the PIP less the value of your pension benefits immediately before the start of PIP (adjusted for inflation) i.e. the PIA, is more than the AA limit then you may be liable to pay a tax charge. It is important to note that the assessment for the AA covers any pension benefits you may have where you have been an active member during the year, not just benefits in the LGPS.

For example, if the increase in the value of your LGPS benefits was calculated as £30,000 in 2017/18 when the AA limit was £40,000, but you also had an increase in the value of other pension benefits of £15,000 in the same year, that would mean you had a total increase in pension benefits of £45,000.

If you did not have any carry forward, you would be liable for a tax charge for the amount you exceeded the AA limit by, even though at face value you did not breach your AA limit in either scheme.

## Adran 4: Beth y mae'r term 'Cario drosodd' yn ei olygu?

Ni fyddech ond yn atebol i dalu treth LB pe bai cyfanswm gwerth eich cynilion pensiwn am y flwyddyn yn mynd dros derfyn y LB am y flwyddyn honno. Fodd bynnag, mae rheol i gario drosodd dair blynedd yn caniatáu i chi gario trosodd LB na chafodd ei ddefnyddio yn ystod y tair blynedd blaenorol. Mae hynny'n golygu na fyddwch efallai'n agored i dalu treth LB hyd yn oed os yw gwerth eich cynilion pensiwn yn fwy na therfyn y LB mewn blwyddyn.

Er enghraifft, pe bai gwerth eich cynilion pensiwn yn 2018/19 wedi codi £50,000 (h.y. £10,000 yn fwy na therfyn y LB) ond yn ystod y tair blynedd blaenorol wedi codi £25,000, £28,000 a £30,000, yna byddai swm y blynyddoedd blaenorol hynny a fyddai'n is na therfyn y LB ar gyfer y tair blynedd hynny yn fwy na gwneud iawn am £10,000 o orgynilion yn ystod y flwyddyn gyfredol. Ni fyddai treth i'w thalu yn yr achos hwn. Er mwyn cario drosodd LB na chafodd ei ddefnyddio mewn blwyddyn flaenorol, byddai'n rhaid i chi fod wedi bod yn aelod o gynllun pensiwn sydd wedi'i gofrestru ar gyfer treth yn ystod y flwyddyn honno.

## Rhan 4: Newidiadau yn y Lwfans Blynyddol

Yn Neddf Cyllid (Rhif 2) 2015, cyflwynwyd dau newid pwysig yn y LB a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016.

1. Tapro'r lwfans blynyddol ar gyfer y rhai ar enillion uchel o 6 Ebrill 2016.
2. Addasu'r CMP yn ystod 2015/16 er mwyn iddo gydredeg â'r flwyddyn drethi o 6 Ebrill 2016.

O'r flwyddyn drethi 2016/17, bydd y LB yn cael ei dapro ar gyfer aelodau sydd ag 'Incwm Trothwy' dros £110,000, ac 'Incwm Cymhwysedig' dros £150,000. Am bob £2 y bydd eich Incwm Cymhwysedig dros £150,000, bydd terfyn eich LB yn cael ei dapro i lawr £1 (hyd at isafswm o £10,000).

Gellir diffinio Incwm Trothwy yn fras fel eich incwm trethadwy ar ôl didynnu eich cyfraniadau pensiwn (gan gynnwys CauGY a gafodd eu didynnu dan y trefniant gwir gyflog). Gall Incwm Trothwy hefyd gynnwys ffynhonnell pob incwm sy'n drethadwy e.e. incwm o eiddo, incwm o gynilion, incwm o ddifidendau, incwm o bensiynau, incwm o nawdd cymdeithasol (lle bo'n drethadwy), incwm o bensiwn gwladol, etc. Ar y llaw arall, eich incwm cymhwysedig fydd eich incwm trothwy ynghyd â'ch cynilion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn trethi. Fodd bynnag, sylwch na chewch ddidynnu o incwm trethadwy unrhyw swm o incwm cyflogaeth a ildiwyd er mwyn darparu ar gyfer pensiwn o ganlyniad i aberthu unrhyw gyflog a wnaed ar neu ar ôl 9

## Section 4: What is meant by the term Carry Forward?

You would only be subject to an AA tax charge if the value of your total pension savings for a year increase by more than the AA limit for that year. However, a 3 year carry forward rule allows you to carry forward unused AA from the previous three years. This means that even if the value of your pension savings increase by more than the AA limit in a year you may not be liable to the AA tax charge.

For example, if the value of your pension savings in 2018/19 increased by £50,000 (i.e. by £10,000 more than the AA limit) but in the 3 previous years had increased by £25,000, £28,000 and £30,000, then the amount by which each of these previous years fell short of the AA limit for those 3 years would more than offset the £10,000 excess pension saving in the current year. There would be no AA tax charge to pay in this case. To carry forward unused AA from an earlier year you must have been a member of a tax registered pension scheme in that year.

## Section 4: Changes to the Annual Allowance

The Finance (No 2) Act 2015 introduced two important changes to the AA with effect from 6 April 2016.

1. An annual allowance taper for high earners from 6 April 2016.
2. To adjust the PIP during 2015/16 so that it becomes aligned with the tax year from 6 April 2016.

From the tax year 2016/17, the AA will be tapered for members who have a 'Threshold Income' in excess of £110,000, and 'Adjusted Income' in excess of £150,000. For every £2 that your Adjusted Income exceeds £150,000, your AA limit will be tapered down by £1 (to a minimum of £10,000).

Threshold income can be broadly defined as your taxable income after the deduction of your pension contributions (including AVCs deducted under the net pay arrangement). Threshold income also includes all sources of income that are taxable e.g. property income, savings income, dividend income, pension income, social security income (where taxable), state pension income etc. Whereas, your adjusted income will be your threshold income plus pensions savings built up over the tax year. However, please note that you are not allowed to deduct from taxable income any amount of employment income given up for pension provision as a result of any salary sacrifice made on or after 9 July 2015.

## Rhan 4: Newidiadau yn y Lwfans Blynyddol (parhad)

Y CMP yw'r cyfnod pryd y caiff twf eich pensiwn ei fesur. Hyd at 2014/15, roedd y CMP yn y CPLlL yn rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth ac roedd rheolau trosiannol arbennig mewn grym ar gyfer 2015/16. O 6 Ebrill 2016, bydd CauMP ar gyfer pob cynllun pensiwn yn cydredeg â'r flwyddyn trethi (6 Ebrill i 5 Ebrill).

Am ragor o wybodaeth ar sut bydd y 'tapro' hyn yn gweithio, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

## Rhan 4: Lwfans Blynyddol: Hawl i gael 'Budd Hyblyg'

Os oes gennych unrhyw fuddion mewn trefniant pensiwn i brynu incwm pensiynadwy (cyfraniad diffynedig) a ddaru chi dderbyn ar delerau hyblyg ar neu ar ôl 6 Ebrill 2015, yna gall rheolau Lwfans Blynyddol i Brynu Incwm Pensiynadwy (MPAA) fod yn berthnasol. Fodd bynnag, ni fydd y Trefniant MPAA ond yn berthnasol os bydd cyfanswm eich cyfraniadau i drefniant prynu incwm pensiynadwy mewn CMP dros £4,000.

Yn gyffredinol, os bydd eich cyfraniadau i gynllun prynu incwm pensiynadwy dros £4,000, bydd buddion cynilion diffiniedig eich pensiwn (CPLlL) yn cael eu profi yn erbyn LB gostyngol o **£36,000** a byddwch yn talu treth mewn perthynas â'ch arbedion wrth brynu incwm pensiynadwy dros £4,000.

Os byddwch yn hawlio buddion hyblyg, byddwch yn derbyn datganiad ynmghylch mynediad hyblyg; dylech ddarparu copi o'r datganiad hwn i'r Gronfa Bensiwn.

Mae mynediad hyblyg yn golygu cymryd swm o arian dros y lwmp swm di-dreth o gyfrif tynnu-i-lawr mynediad hyblyg, gan gymryd lwmp swm o gronfa bensiwn heb ei grisialu (UFPLS), prynu blwydd-dal hyblyg, cymryd pensiwn o gynllun cyfraniadau diffiniedig gyda llai na 12 o aelodau sy'n bensiynwyr, neu gymryd lwmp swm ar ei ben ei hun os oes gennych amddiffyniad sylfaenol ond nid estynedig.

## Section 4: Changes to the Annual Allowance (continued)

The PIP is the period over which your pension growth is measured. Up until 2014/15, the PIP in the LGPS ran from 1 April to 31 March and special transitional rules applied for 2015/16. From 6 April 2016, PIPs for all pension schemes will be aligned with the tax year (6 April to 5 April).

For further information on how this 'taper' will work, please contact the Pension Fund.

## Section 4: Annual Allowance 'Flexible Benefit' access

If you have any benefits in a money purchase (defined contribution) pension arrangement which you have flexibly accessed on or after 6 April 2015 then the Money Purchase Annual Allowance (MPAA) rules may apply. However, the MPAA will only apply if your total contributions to a money purchase arrangement in a PIP exceed £4,000.

Generally, if your contributions to a money purchase scheme exceed £4,000 your defined benefit pension (LGPS) savings will be tested against a reduced AA of **£36,000** and you will pay a tax charge in respect of your money purchase saving in excess of £4,000.

If you access flexible benefits you will be provided with a flexible access statement; you should provide the Pension Fund with a copy of this statement.

Flexible access means taking a cash amount over the tax-free lump sum from a flexi-access drawdown account, taking an uncrystallised funds pension lump sum (UFPLS), purchasing a flexible annuity, taking a scheme pension from a defined contribution scheme with fewer than 12 pensioner members or taking a stand-alone lump sum if you have primary but not enhanced protection.

## Rhan 4: Sut y byddwn i'n talu treth LB?

**Os ewch dros derfyn y LB yn unrhyw flwyddyn, mae cyfrifoldeb arnoch i roi gwybod am hynny i CThEM ar eich ffurflen dreth hunan-asesu.**

Mae'n rhaid i'r Gronfa Bensiwn roi gwybod i chi os yw buddion CPLlL (ynghyd â faint o Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CauGY) y gallech fod wedi eu talu) dros derfyn y LB mewn blwyddyn a hynny heb fod yn ddiweddarach na 6 Hydref yn y flwyddyn drethi ganlynol.

Os oes arnoch ddyled treth LB sy'n fwy na £2,000 a bod eich cynilion pensiwn yn y CPLlL yn unig wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn o fwy na therfyn y LB, efallai y bydd modd i chi ddewis y CPLlL i dalu rhan neu'r cyfan o'r dreth ar eich rhan. Byddai'r dreth wedyn yn cael ei chasglu o'ch buddion pensiwn.

Pe baech yn dymuno i'r CPLlL dalu rhywfaint neu'r cyfan o dreth y LB ar eich rhan, mae'n rhaid i chi hysbysu'r Gronfa Bensiwn heb fod yn ddiweddarach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn y mae treth y LB yn berthnasol. Fodd bynnag, os ydych yn ymddeol (ac yn tynnu eich holl fuddion o'r CPLlL) ac yn dymuno i'r CPLlL dalu cyfran neu'r cyfan o'r dreth ar eich rhan o'ch buddion, bydd yn rhaid i chi ddweud wrth y Gronfa cyn i chi fod â hawl i'r buddion hynny.

## Adran 4: A fydd hyn yn effeithio arnaf i?

Os ydych yn meddwl bod y LB yn effeithio arnoch chi, mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Llywodraeth: **https://www.gov.uk/tax-on-your-private-pension/annual-allowance**.

Sylwch fod yr wybodaeth ar y LB a geir yn y llyfryn hwn o nodiadau canllaw yn cynnig ichi drosolwg o reolau'r LB. **NI** ddylid ystyried yr wybodaeth hon yn ddatganiad cyflawn ac awdurdodol ar y gyfraith. Gall y rheolau sy'n rheoli'r LB fod yn gymhleth ac yn agored i gael eu newid. Os ydych yn ansicr ynglŷn â sut i fynd ymlaen, cynghorir chi i chwilio am Gyngor Ariannol Annibynnol.

Er mwyn cael cymorth i ddod o hyd i Ymgynghorydd Ariannol, edrychwch ar wefan y Cyngor Ariannol: **https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/choosing-a-financial-adviser**

## Section 4: How would I pay an AA tax charge?

**If you exceed the AA limit in any year you are responsible for reporting this to HMRC on your self-assessment tax return.**

The Pension Fund is obliged to notify you if your LGPS benefits (plus the amount of any Additional Voluntary Contributions (AVCs) you may have paid) exceed the AA limit in a year by no later than 6 October of the following tax year.

If you have an AA tax charge that is more than £2,000 and your pension savings in the LGPS alone have increased in the year by more than the AA limit, you may be able to opt for the LGPS to pay some or all of the tax charge on your behalf. The tax charge would then be recovered from your pension benefits.

If you want the LGPS to pay some or all of an AA tax charge on your behalf, you must notify the Pension Fund no later than 31 July in the year following the end of the year to which the AA charge relates. However, if you are retiring (and draw all of your benefits from the LGPS) and you want the LGPS to pay some or all of the tax charge on your behalf from your benefits, you must tell the Fund before you become entitled to those benefits.

## Section 4: Will I be affected?

If you think you are affected by the AA, further information is available on the Government's website: **https://www.gov.uk/tax-on-your-private-pension/annual-allowance.**

Please note that the AA information within these notes of guidance booklet provide an overview of the AA rules. This information should **NOT** be treated as a complete and authoritative statement of the law. The rules governing AA can be complex and are subject to change. If you are unsure how to proceed, you are advised to obtain Independent Financial Advice.

For help in choosing an Independent Financial Advisor, please visit the Money Advice website: **https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/choosing-a-financial-adviser**

## Rhan 5: Cyfanswm Gwerth y Buddion fel yr oedd ar 31/03/2019

Os daethoch yn aelod o'r CPLlL ar neu cyn 31 Mawrth 2014, bydd cyfanswm gwerth eich buddion fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 yn cynnwys **buddion eich Cyfartaledd Gyrfa (A)** (ar gyfer aelodaeth o 1 Ebrill 2014) a **buddion eich Tâl Terfynol (B)** (ar gyfer aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2014).

Mae Dewis 1, sef eich **Buddion Safonol** yn cynnwys cyfanswm cyfun o'ch pensiwn blynyddol **(A + B)** ac unrhyw hawl i lwmp swm di-dreth awtomatig sydd gennych mewn perthynas â'ch aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008. Mae Dewis 2, sef eich **Uchafswm Lwmp Swm** fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 yn dangos uchafswm eich lwmp swm di-dreth a'r pensiwn blynyddol sy'n weddill.

Pan fyddwch yn ymddeol, cewch ddewis trosi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol er mwyn cael arian parod di-dreth, sydd yn ychwanegol at unrhyw hawl sydd gennych i gael lwmp swm awtomatig. Am bob £1 o bensiwn a ildiwch, byddwch yn derbyn £12 o lwfans ymddeol di-dreth yn ei le, yn amodol ar derfyn a osodwyd ar Werth Cyfalaf gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Sylwch **NAD** yw'r uchafswm lwmp swm a ddangosir yn cynnwys eich cronfa CGY fewnol (os yw hynny'n berthnasol). Bydd datganiad yn dangos gwerth eich cronfa CGY fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 yn cael ei gyhoeddi ar wahân.

### A) Gwerth eich Cyfrif Pensiwn sy'n seiliedig ar Gyfartaledd eich Enillion-Wedi'u-Hadbrisio yn ystod eich Gyrfa fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019

Mae'r **Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa** sydd wedi ei gredydu i'ch cyfrif pensiwn ar gyfer Blwyddyn y Cynllun o 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2019, wedi ei seilio ar eich tâl pensiynadwy seiliedig ar eich Enillion-Wedi'u Hadbrisio yn ystod eich Gyrfa (fel yr eglurwyd dan **Adran 2**) a'r gyfradd briodol o groniad pensiwn, wedi'i chyfrifo fel a ganlyn:

<u>Prif Adran:</u>

- **1/49fed** x Tâl pensiynadwy Cyfartaledd Gyrfa a dderbyniwyd wrth gyfrannu at y Brif Adran y Cynllun yn ystod y cyfnod o 1/4/2018 i 31/3/2019.

<u>Adran 50/50:</u>

- **1/98fed** x Tâl pensiynadwy Cyfartaledd Gyrfa a dderbyniwyd wrth gyfrannu at yr Adran 50/50 y Cynllun yn ystod y cyfnod o 1/4/2018 i 31/3/2019.

## Section 5: Total Value of Benefits as at 31/03/2019

If you became a member of the LGPS on or before 31 March 2014, the total value of your benefits as at 31 March 2019 will be made up of your **CARE benefits (A)** (for membership from1 April 2014) and your **Final Salary benefits (B)** (for membership to 31 March 2014).

Option 1; your **Standard Benefits**, consists of the total combined value of your annual pension **(A + B)** and any automatic tax-free lump sum entitlement you may have in respect of your final salary membership to 31 March 2008. Option 2; your **Maximum Lump Sum** as at 31 March 2019 shows your maximum tax-free lump sum and remaining annual pension.

When you retire, you will have the option to convert some of your annual pension to gain tax-free cash, which is in addition to any automatic lump sum entitlement you may have. For every £1 of pension you give up, you will receive £12 of tax-free cash in return, subject to a Capital Value limit set by Her Majesty's Revenue & Customs (HMRC). Please note that the maximum lump sum shown does **NOT** include your in-house AVC fund (if applicable). A statement showing your AVC fund value as at 31 March 2019 is issued separately.

### A) Value of CARE Pension Account as at 31 March 2019

The **CARE pension** credited to your pension account for the Scheme Year from 1 April 2018 to 31 March 2019 has been based on your CARE pensionable pay (as explained under **Section 2**) and the appropriate rate of pension build up, calculated as follows.

<u>Main Section:</u>

- **1/49th** x CARE pensionable pay received whilst contributing to the Main Section of the Scheme during the period from 1/4/2018 to 31/3/2019.

<u>50/50 Section:</u>

- **1/98th** x CARE pensionable pay received whilst contributing to the 50/50 Section of the Scheme during the period from 1/4/2018 to 31/3/2019.

## Adran 5: Parhad

Mae unrhyw bensiwn ychwanegol y gellwch fod wedi'i brynu yn ystod Blwyddyn y Cynllun o dan Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) neu CPY Cost a Rennir hefyd wedi cael ei gynnwys yn eich Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, a hefyd unrhyw bensiwn ychwanegol a brynwyd drwy drosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i'r CPLlL. Bydd eich **Cyfrif Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa** yn cael ei adbrisio ar **1 Ebrill 2019** a phob mis Ebrill wedi hynny yn unol â Rheolau Adbrisio Trysorlys EM, fel bod ei werth yn aros gyfuwch â chostau byw.

**B) Gwerth Buddion eich Tâl Terfynol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2019**

Os daethoch yn aelod o'r CPLlL ar neu cyn 31 Mawrth 2014, mae buddion eich tâl Terfynol yn seiliedig ar eich aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2014 (gan gynnwys aelodaeth a ddyfarnwyd wrth drosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i'r CPLlL ac unrhyw 'flynyddoedd ychwanegol' o aelodaeth a brynwyd) a'ch **Tâl Terfynol** a ddangosir o dan **Adran 5**, sef eich tâl cyfwerth llawn amser fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 o dan y diffiniad o dâl yng Nghynllun 2008 (ac eithrio goramser digontract a chan anwybyddu unrhyw ostyngiad mewn tâl oherwydd salwch neu anaf neu absenoldeb sy'n gysylltiedig â phlant neu absenoldeb yng ngwasanaeth lluoedd wrth gefn).

Mae eich aelodaeth fel yr oedd ar 31 Mawrth 2014 yn cael ei fesur mewn Blynyddoedd a Diwrnodau ac nid yw ond yn berthnasol i gyfrifo **buddion eich Tâl Terfynol**. Mae'r ffigwr a ddangosir wedi ei gyfrifo yn unol â'ch oriau gwaith hyd at y dyddiad hwn, ac os ydych yn gweithio'n rhan amser, bydd eich aelodaeth wedi cael ei addasu i fod yn unol â'ch oriau gweithio rhan amser. Sylwch: os ydych yn, neu wedi bod yn, gyflogedig ar sail achlysurol, efallai na fydd y buddion a ddangosir ar y datganiad yn adlewyrchiad cywir o'r buddion a delir pan fyddwch yn ymddeol. Mae hyn oherwydd, ar eich dyddiad gadael, bydd y cyfartaledd o gyfanswm yr oriau ddaru chi weithio yn ym mhob blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael ei gadarnhau gan eich Cyflogwr, a bydd eich aelodaeth yn cael ei gyfrifo yn unol â hynny.

**NI** fydd unrhyw doriad yn eich aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2014 yn cyfrif tuag at gyfrifo buddion eich Tâl Terfynol. Os ydych yn cyfrannu at gontract Cyfraniadau Ychwanegol Rheolaidd (CYRh), mae'r swm cymesur o bensiwn ychwanegol a brynwyd fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 wedi cael ei ychwanegu at y pensiwn blynyddol a ddangosir.

## Section 5: Continued

Any additional pension that you may have purchased during the Scheme Year under an Additional Pension Contribution (APC) or Shared-Cost APC arrangement has also been included in your CARE Pension as at 31 March 2019, as has any additional pension purchased from a transfer of previous pension rights into the LGPS. Your CARE Pension Account will be revalued on **1 April 2019** and every April thereafter in line with HM Treasury Revaluation Orders, so that its value keeps pace with the cost of living.

**B) Value of Final Salary Benefits as at 31 March 2019**

If you became a member of the LGPS on or before 31 March 2014, your Final Salary benefits are based on your membership to 31 March 2014 (inclusive of any membership awarded from a transfer of previous pension rights into the LGPS and any 'added years' of membership purchased) and your **Final Salary Pay** shown under **Section 5**, which is your full time equivalent pay as at 31 March 2019 under the 2008 Scheme definition of pay (excluding non-contractual overtime and ignoring any reduction in pay due to sickness / injury, child-related leave or reserve forces service leave).

Your membership as at 31 March 2014 is measured in Years and Days and is only applicable to the calculation of your **Final Salary benefits**. The figure shown has been calculated in accordance with your working hours to this date, and if part time, your membership has been proportioned according to your part time working hours. Please note, if you are or have been employed on a casual basis, the benefits shown on the statement may not be an accurate reflection of the benefits paid at retirement. This is because, at your date of leaving, the average of the total number of hours that you have worked during each year to 31 March 2014 will be confirmed by your Employer, and your membership will be proportioned accordingly.

Any break in your membership to 31 March 2014 will **NOT** count towards the calculation of your Final Salary benefits. If contributing to an Additional Regular Contribution (ARC) contract, the proportionate amount of additional pension purchased as at 31 March 2019 has been added to the annual pension shown.

## Adran 5: Parhad

Mae gwerth eich buddion tâl terfynol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 wedi eu gyfrifo fel a ganlyn.

Pensiwn Blynyddol:

- 1/80fed x aelodaeth hyd at 31/03/2008 x Tâl Cyflog Terfynol; AC
- 1/60fed x aelodaeth o 01/04/2008 i 31/03/2014 x Tâl Terfynol.

Lwmp swm awtomatig di-dreth:

- 3/80fed x aelodaeth i 31/03/2008 x Tâl Cyflog Terfynol.
- **DIM** lwmp swm awtomatig di-dreth yn daladwy ar ôl 01/04/2008.

**Os ydych wedi ymuno â'r CPLlL ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014, mae'r adran Buddion Tâl Terfynol ar eich datganiad wedi cael ei adael yn wag yn fwriadol.**

## Section 5: Continued

The value of your final salary benefits as at 31 March 2019 are calculated as follows.

Annual Pension:

- 1/80th x membership to 31/03/2008 x Final Salary pay; PLUS
- 1/60th x membership from 01/04/2008 to 31/03/2014 x Final Salary pay.

Automatic tax-free Lump Sum:

- 3/80th x membership to 31/03/2008 x Final Salary pay.
- **NO** automatic tax-free lump sum payable from 01/04/2008.

**If you joined the LGPS on or after 1 April 2014, the Final Salary Benefits on your statement has been intentionally left blank.**

# Adran 6: Buddion Marwolaeth mewn Gwasanaeth fel yr oedd ar 31/03/2019

## Lwmp Swm Grant Marwolaeth

Pe baech yn marw fel aelod actif, gallai lwmp swm grant marwolaeth di-dreth o dair gwaith eich Tâl Pensiynadwy Tybiedig (TPT) (cyfartaledd o'r tâl pensiynadwy a dderbyniwyd yn ystod y 3 mis cyflawn, neu 12 wythnos os telir yn wythnosol, cyn dyddiad eich marwolaeth) ddod yn daladwy i'ch buddiolwyr arfaethedig, sef y rhai a enwebwyd gennych yn flaenorol ar eich ffurflen **Mynegiant o Ddymuniad ar gyfer Grant Marwolaeth** ac a ddangosir ar eich datganiad.

Pe baech yn dymuno gwneud neu newid eich Mynegiant o Ddymuniad, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn neu os yw ar gael, lawrlwythwch y ffurflen oddi ar wefan y Gronfa Bensiwn.

Os **NAD** ydych wedi gwneud Mynegiant o Ddymuniad, gallai hynny arafu'r broses o dalu'r grant marwolaeth. Sylwch fod gan yr awdurdod gweinyddu ddisgresiwn llwyr o safbwynt i bwy y mae'r taliad hwn yn cael ei wneud.

Os oes gennych hefyd **bensiwn gohiriedig, pensiwn salwch Haen 3 wedi ei ohirio neu bensiwn mewn taliad o gyfnod cynharach o aelodaeth CPLlL yng Nghymru neu Loegr,** lwmp swm y grant marwolaeth a fyddai'n daladwy fyddai'r mwyaf o'r rhain pe baech yn marw'n aelod actif o ran eich cyfnod o aelodaeth actif (fel y dangosir) **NEU** lwmp swm y grant marwolaeth a fyddai'n ddyledus o unrhyw un o'ch buddion blaenorol. Os lwmp swm y grant marwolaeth actif sydd fwyaf, ni fydd lwmp swm y grant marwolaeth yn daladwy mewn perthynas â'r buddion blaenorol. Fodd bynnag, os bydd lwmp swm y grant marwolaeth o un o'r buddion blaenorol yn uwch, **NI FYDD** lwmp swm y grant marwolaeth yn cael ei dalu mewn perthynas â'ch cyfnod cyfredol o aelodaeth.

## Sylwch

**NID** yw Lwmp Swm y Grant Marwolaeth yn daladwy yn awtomatig i'ch perthynas agosaf. Mae Lwmp Swm y Grant Marwolaeth a Phensiwn Blynyddol Goroeswr yn **ddau fudd ar wahân**.

# Section 6: Death in Service Benefits as at 31/03/2019

## Lump Sum Death Grant

In the event of your death as an active member, a tax-free lump sum death grant of **three times** your Assumed Pensionable Pay (APP) (an average of the pensionable pay received during the 3 complete months or 12 week period if weekly paid, before your date of death) may become payable to your proposed beneficiaries, as previously nominated on your **Death Grant Expression of Wish** form and shown on your statement.

If you wish to make or change your Expression of Wish, please contact the Pension Fund or if available, download the form from the Pension Fund's website.

If you have **NOT** made an Expression of Wish, the payment of the lump sum death grant may be delayed. Please note that the administering authority holds absolute discretion as to whom this payment is to be made.

If you also have a **deferred pension, suspended Tier 3 ill health pension or a pension in payment from an earlier period of LGPS membership in England or Wales**, the lump sum death grant payable if you were to die as an active member is the greater of that in respect of your active period of membership (as shown) **OR** the lump sum death grant due from any of your earlier benefits. If your active lump sum death grant is greater, no lump sum death grant will be payable in respect of the earlier benefits. However, if the lump sum death grant from one of the earlier benefits is greater, **NO** lump sum death grant will be paid in respect of your current period of membership.

## Please Note

A lump sum death grant is **NOT** automatically payable to your next of kin.
The Lump Sum Death Grant and Annual Survivor Pension are **two separate benefits**.

# Adran 6: Parhad

Yn ychwanegol at y taliad o lwmp swm y grant marwolaeth, mae **Pensiwn Blynyddol Goroeswr** yn daladwy'n awtomatig i'ch priod neu'ch partner sifil cofrestredig neu, yn amodol ar amodau cymhwyso penodol, eich partner sy'n cyd-fyw cymwys, sydd wedyn yn daladwy am weddill eu hoes. Mae cyd-fyw yn golygu **NAD** ydych yn briod nac mewn partneriaeth sifil gofrestredig. Gynt roedd yn ofynnol i chi enwebu partner sy'n cyd-fyw i dderbyn pensiwn goroeswr, ond nid yw hynny'n angenrheidiol mwyach ar ôl 1 Ebrill 2014.

Er mwyn i bensiwn blynyddol goroeswr fod yn daladwy i'ch **partner cymwys sy'n cyd fyw**, mae'n rhaid bodloni POB un o'r amodau a ganlyn am gyfnod di-dor o **2 flynedd** o leiaf cyn eich marwolaeth:

- Mae'r ddau ohonoch yn rhydd i briodi neu ffurfio partneriaeth sifil â'ch gilydd;
- Rhaid i chi fod yn byw gyda'ch gilydd fel pe baech yn ŵr a gwraig neu bartneriaid sifil;
- Bod naill na'r llall ohonoch wedi bod yn byw gyda rhywun arall fel pe baech / baent yn ŵr a gwraig neu bartner sifil;
- Yr ydych yn ddibynnol yn ariannol neu'n gyd-ddibynnol ar eich gilydd.

Mae'n bosib y bydd pensiwn goroeswr hefyd yn dod yn daladwy i blentyn cymwys, ar yr amod ei fod yn blentyn i chi, yn blentyn mabwysiedig, yn llys-blentyn neu'n blentyn a dderbynnir fel aelod o'r teulu. Bydd pensiwn plentyn yn cael ei dalu nes ei fod yn 18 oed, neu ar ôl hynny os yw mewn addysg lawn amser barhaus neu'n dilyn cwrs hyfforddi cymeradwy am o leiaf 2 flynedd, nes ei fod yn 23 oed. Rhoddir ystyriaeth arbennig os yw'r plentyn yn anabl yn gorfforol neu'n feddyliol cyn iddo fod yn 18 oed. Os felly, bydd y pensiwn plentyn yn daladwy am gyhyd ag y mae'r anabledd yn parhau.

Mae'r pensiwn goroeswr blynyddol yn cael ei seilio ar fuddion goroeswr dan gynllun Tâl Terfynol a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2014 (os yw'n berthnasol), ac yn cynnwys unrhyw 'flynyddoedd ychwanegol' o aelodaeth a brynwyd neu unrhyw Gyfraniadau Ychwanegol Rheolaidd (CYRh) sy'n cael eu gwneud sy'n cynnwys buddion goroeswr a'r buddion goroeswr sy'n ddyledus o dan y cynllun Cyfartaledd Gyrfa o 1 Ebrill 2014 (gan gymryd eich bod yn parhau i fod yn aelod actif hyd at eich OPA a bod eich tâl pensiynadwy Cyfartaledd Gyrfa yn aros yn gyson tan hynny).

# Section 6: Continued

In addition to the payment of a lump sum death grant, an **Annual Survivor Pension** is payable automatically to your spouse / registered civil partner or, subject to certain qualifying conditions, to your eligible co-habiting partner, which is then payable for their lifetime. Co-habiting means that you are **NOT** married or in a registered civil partnership. Previously you were required to nominate a co-habiting partner to receive a survivor's pension, but this is no longer necessary from 1 April 2014.

In order for an annual survivor pension to become payable to your **eligible co-habiting partner** ALL of the following conditions must have applied for a continuous period of at least **2 years** before your death:

- Both free to marry or enter into a civil partnership with each other;
- You must have been living together as if you were husband and wife or civil partners;
- Neither of you have been living with someone else as if you / they were husband and wife or civil partner;
- You are financially dependent or interdependent on each other.

A survivor's pension may also become payable to an eligible child, providing they are your child or an adopted child, a step child or a child accepted as a member of the family. A child's pension will be paid until at least age 18, or thereafter if in full time continuous education or undertaking an approved training course for at least 2 years, until a maximum age of 23. Special consideration is given if the child since before age 18, is physically or mentally disabled. If so, a child's pension is payable for as long as the disability continues.

The annual survivor pension has been based on the Final Salary survivor benefits accrued to 31 March 2014 (if applicable), inclusive of any 'added years' of membership being purchased or from any Additional Regular Contributions (ARC) being made that include a survivor's benefit, and the survivor benefits due under the CARE scheme from 1 April 2014 (assuming that you remain an active member until your NPA and that your CARE pensionable pay remains constant until then).

## Rhan 6: Parhad

Bydd y **Pensiwn Blynyddol Goroeswr** hefyd yn cynnwys y **codiadau Cyfartaledd Gyrfa**:

- TPT x 1/160fed x aelodaeth o 1 Ebrill 2014 hyd at eich OPA

Mae'r buddion goroeswr sy'n daladwy i'ch priod neu'ch partner sifil sy'n goroesi yn seiliedig ar eich cyfnod cyfan o aelodaeth o'r cynllun. Fodd bynnag;

- **NI FYDD** buddion goroeswr sy'n daladwy i bartner cymwys sy'n cyd-fyw yn cynnwys unrhyw aelodaeth cyn 6 Ebrill 1988 (oni bai eich bod, cyn 1 Ebrill 2014, wedi dewis talu am ran neu'r cyfan o'r aelodaeth);
- **NI FYDD** buddion goroeswr sy'n daladwy i wraig weddw yn cynnwys unrhyw aelodaeth cyn 6 Ebrill 1978 os ydych yn priodi ar ôl ymddeol;
- **NI FYDD** buddion goroeswr sy'n daladwy i ŵr gweddw os ydych yn priodi ar ôl ymddeol, goroeswr o'r un rhyw os ydych yn priodi ar ôl ymddeol neu bartner sifil o bartneriaeth sifil os ydych yn priodi ar ôl ymddeol yn cynnwys aelodaeth cyn 6 Ebrill 1988.

## Adran 7: Rhagamcan o Fuddion CPLlL hyd at eich OPA

Mae eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA) a ddangosir o dan yr adran hon yn gysylltiedig â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (OPW) – o leiaf 65 mlwydd oed, ac felly gall newid yn y dyfodol. Fodd bynnag, yr ydych yn gallu ymddeol yn wirfoddol o pan ydych yn 55 oed, ond efallai y bydd eich buddion yn cael eu lleihau os cânt eu talu cyn eich OPA. **<u>NID yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn eich datganiad</u>**. Gellwch aros yn y cynllun tan 2 ddiwrnod cyn eich pen-blwydd yn 75 oed, ond mae'n rhaid i'ch buddion gael eu talu cyn i chi fod yn 75 oed. Os oeddech chi dros eich OPA ar 31 Mawrth 2019, **mae'r codiad ar sail ymddeoliad hwyr wedi cael ei gynnwys yn eich datganiad.**

Mae'r rhagamcan i'ch OPA wedi cael ei selio ar eich Tâl Pensiynadwy Cyfartaledd Gyrfa a'ch Tâl Cyflog Terfynol fel yr oedd ar **31 Mawrth 2019** (os yw hynny'n berthnasol) ac **NID** yw'n darparu ar gyfer unrhyw newidiadau yn eich tâl pensiynadwy yn y dyfodol. Cymerir yn ganiataol y byddwch yn parhau i gyfrannu at yr un adran o'r CPLlL tan eich OPA ac y bydd eich Tâl Pensiynadwy Cyfartaledd Gyrfa a Thâl Cyflog Terfynol yn aros yn gyson.

(Sylwch: Pan fyddwch yn gadael, bydd buddion eich Tâl Terfynol cyn 2014 yn cael eu seilio ar eich tâl cyfwerth llawn amser ar y pryd, o dan y diffiniad o dâl yng Nghynllun 2008, ac **NID** yw'n cynnwys goramser di-gontract neu oriau ychwanegol).

## Section 6: Continued

The **Annual Survivor Pension** will also include the **CARE enhancement**:

- APP x 1/160th x membership from 1 April 2014 to your NPA.

The survivor benefits payable to your surviving spouse or civil partner is based on your entire period of scheme membership, however, the survivor benefits payable to:

- an eligible co-habiting partner will **NOT** include any pre 6 April 1988 membership (unless you have elected prior to 1 April 2014 to pay for some or all of that membership to count);
- a widow of a post leaving marriage will **NOT** include any pre 6 April 1978 membership;
- a widower of a post leaving marriage, a survivor of a same sex post leaving marriage or a civil partner of a post leaving civil partnership will **NOT** include any pre 6 April 1988 membership.

## Section 7: Projection of LGPS Benefits to your NPA

Your Normal Pension Age (NPA) shown under this section is linked to your **State Pension Age (SPA)** and may therefore change in the future. However, you are able to retire voluntarily from age 55, but your benefits may be reduced if paid before your NPA. **<u>This is NOT reflected in your statement</u>**. You can remain in the scheme until 2 days before your 75th birthday, but your benefits must be paid before age 75. If you were over your NPA as at 31 March 2019, **the late retirement increase has been included in your statement**.

The projection to your NPA has been based on your CARE Pensionable Pay and Final Salary Pay as at **31 March 2019** (if applicable) and does **NOT** provide for any future changes in your pensionable pay. It has been assumed that you will continue to contribute to the same section of the LGPS until your NPA and that your CARE Pensionable Pay / Final Salary Pay will remain constant.

(Note that when you leave, your pre 2014 Final Salary benefits will be based on your full time equivalent pay at that time, under the 2008 Scheme definition of pay, which does **NOT** include non-contractual overtime or additional hours).

## Adran 7: Parhad

Mae'r adran hon yn dangos **Rhagamcan o'ch Buddion Safonol,** a ddangosir fel **Dewis 1**, a mae **Dewis 2** yn dangos eich **Uchafswm Lwmp Swm**. Eich rhagamcaniad o Fuddion Safonol yw cyfanswm o ragamcan o'ch pensiwn CG a rhagamcan o'ch pensiwn Cyflog Terfynol (C).

<u>Os daethoch yn aelod ar neu cyn 31 Mawrth 2014, mae codiad wedi cael ei ychwanegu at eich Dewis Buddion Safonol i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng eich hen OPA yng Nghynllun 2008 a'ch OPA ar hyn o bryd yng Nghynllun 2014 (os yw'n wahanol).</u> Mae'r codiad hwn wedi cael ei seilio ar ffactorau a ddarparwyd gan Adran Actwari'r Llywodraeth (GAD), **a all newid yn y dyfodol.**

Os ydych yn cyfrannu tuag at CPY / CPYCRh neu 'flynyddoedd ychwanegol' / trefniant CRhY, yna mae gwerth llawn eich cytundeb wedi cael ei gynnwys yn eich rhagamcan.

Er mwyn dangos rhagamcan o bensiwn blynyddol goroeswr (D) o dan yr adran hon, mae eich statws partneriaeth wedi ei gymryd i fod yn **Briod** neu **mewn Partneriaeth Sifil**. Os ydych yn **Sengl**, **NI** fydd pensiwn blynyddol goroeswr yn daladwy pan fyddwch farw.

Mae eich **Rhagamcan o Pensiwn Blynyddol Goroeswr (D)** wedi'i seilio ar fuddion goroeswyr dan gynllun Tâl Terfynol a gronnwyd at 31 Mawrth 2014 (os yw'n berthnasol) a'r buddion goroeswr sy'n ddyledus o dan y Cynllun Cyfartaledd Gyrfa o 1 Ebrill 2014, gan gymryd eich bod yn parhau i fod yn aelod actif tan eich OPA.

Mae'r pensiwn blynyddol goroeswr sy'n daladwy i'ch priod neu bartner sifil yn seiliedig ar eich holl aelodaeth yn y cynllun. Fodd bynnag, **NI** fyddai pensiwn sy'n daladwy i **Bartner Cymwys sy'n Cyd-fyw** yn cynnwys unrhyw aelodaeth cyn 6 Ebrill 1988 (oni bai eich bod, cyn 1 Ebrill 2014, wedi dewis prynu rhywfaint neu'r cyfan o'ch aelodaeth yn ôl, er mwyn iddo gyfrif tuag at y cyfrifiad hwn).

### Adbrisio eich Cyfrif Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa

Yn unol â Gorchmynion Ailbrisio Trysorlys EM, mae adbrisiad o **3%** wedi'i gymhwyso i gyfrif eich pensiwn Cyfartaledd Gyrfa fel yr oedd ar **1 Ebrill 2018**. Dyma oedd ffigwr Mynegrif Defnyddwyr (MD) a gyhoeddwyd yn Hydref 2017 ar gyfer Medi 2017.

Fodd bynnag, sylwch nad oes **DIM** rhagdybiaeth wedi'i wneud ar gyfer chwyddiant dan Orchmynion Adbrisio Trysorlys EM ar gyfer cronni buddion Cyfartaledd Gyrfa yn y dyfodol.

## Section 7: Continued

This section shows your **Projected Standard Benefits**, shown as **Option 1**, and **Option 2** shows your **Projected Maximum Lump Sum**. Your projected Standard Benefits is the total of your projected CARE Annual Pension and your projected Final Salary pension **(C)**.

<u>If you became a member on or before 31 March 2014, an increase has been added to your Standard Benefits to reflect the difference between your old 2008 Scheme NPA and your current 2014 Scheme NPA (if different)</u>. This increase has been based on factors provided by the Government Actuary's Department (GAD), **which may change in the future.**

If contributing towards an APC / SCAPC or 'added years' / ARC arrangement, the full value of your contract has been included in your projection.

In order to show a projected annual survivor pension (D) under this section, your partnership status has been assumed as **Married /** in a **Civil Partnership**. If **Single**, an annual survivor pension will **NOT** become payable in the event of your death.

Your **Projected Annual Survivor Pension (D)** has been based on the Final Salary survivor benefits accrued to 31 March 2014 (if applicable) and the survivor benefits due under the CARE scheme from 1 April 2014, assuming that you remain to be an active member until your NPA.

The annual survivor pension payable to your surviving spouse or civil partner is based on all your scheme membership, however, the pension payable to an **Eligible Cohabiting Partner** would **NOT** include any pre 6 April 1988 membership (unless you have made an election prior to 1 April 2014 to buy back some or all of your membership, so that it counts towards this calculation).

### Revaluation to your CARE Pension Account

In accordance with HM Treasury Revaluation Orders, a revaluation of **3%** has been applied to your CARE pension account as at **1 April 2018**. This was the Consumer Price Index (CPI) figure published in October 2017 in respect of September 2017.

However, please note that **NO** assumption has been made for inflation under HM Treasury Revaluation Orders for future build up in respect of your CARE benefits.

# Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

**Pryd y byddaf yn gymwys ar gyfer buddion yn y cynllun?**

Os ydych wedi ymuno â'r CPLlL ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014, heb ddim cyfnod cynharach o aelodaeth CPLlL yng Nghymru neu Loegr a heb drosglwyddo unrhyw hawliau blaenorol i'r CPLlL, bydd **RHAID** i chi gronni 2 flynedd o aelodaeth yn y cynllun er mwyn bod yn gymwys i gael buddion. Mae'r rhagamcanion a wnaed ar eich datganiad, felly, yn cymryd yn ganiataol y byddwch yn parhau i **gyfrannu at y CPLlL neu eich OPA.**

**A yw fy natganiad yn ystyried unrhyw ostyngiad ymddeoliad cynnar?**

Os oeddech dros 55 mlwydd oed ar 31 Mawrth 2019, **NID** yw eich buddion yn cynnwys unrhyw ostyngiad ymddeoliad cynnar perthnasol pe baech yn ymddeol cyn eich OPA.

**A yw fy natganiad yn cynnwys cynnydd ymddeoliad hwyr?**

Os ydych chi wedi mynd heibio eich OPA ar 31 Mawrth 2019, mae cyfanswm gwerth eich buddion ar 31 Mawrth 2019 yn cynnwys unrhyw gynnydd ar sail ymddeoliad hwyr sy'n daladwy yn unol â ffactorau actiwaraidd **cyfredol**, a allai newid yn y dyfodol. Hefyd, mae **Adran 7**, h.y. rhagamcan i'ch OPA, wedi cael ei adael yn wag yn fwriadol.

**Beth os ydwyf yn cyfrannu at y CPLlL o dan gyflogaeth arall?**

Byddwch yn derbyn datganiad ar wahân mewn perthynas â phob un o'ch cyflogaeth pensiynadwy.

**Beth os gennyf fuddion gohiriedig yn y CPLlL hefyd?**

Byddwch yn derbyn datganiad ar wahân ar gyfer unrhyw fuddion gohiriedig sydd gennych mewn perthynas â chyfnod cynharach o aelodaeth CPLlL.

**A allai dalu mwy i gynyddu fy muddion?**

Mae dau ddewis mewnol ar gael i chi. Gallwch naill ai wneud Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) neu gallwch ddewis i brynu pensiwn ychwanegol drwy wneud Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY). Am ragor o wybodaeth am yr opsiynau hyn, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

**Pam dangosir 'dim' ar gyfer fy Lwfans Blynyddol (Swm Mewnbwn Pensiwn)?**

Wrth asesu yn unol â rheoliadau CThEM, mae'r cynnydd yng ngwerth eich buddion fel yr oedd ar 05/04/2018 (wedi'i uwchraddio er mwyn bod yn gyson â'r mynegai costau byw priodol) yn fwy na'r cyfrifiad a wnaed ar 05/04/2019.

# Frequently Asked Questions

**When do I qualify for scheme benefits?**

If you joined the LGPS on or after 1 April 2014, with no earlier period of LGPS membership in England or Wales and having not transferred any previous pension rights into the LGPS, you **MUST** attain 2 years scheme membership in order to qualify for benefits. The projections made on your statement therefore assume that you will **continue to contribute to the LGPS until your NPA.**

**Does my statement take account of any early retirement reduction?**

If you were over age 55 as at 31 March 2019, your benefits do **NOT** include any early retirement reduction applicable if you were to retire before your NPA.

**Does my statement include a late retirement increase?**

If you have gone past your NPA as at 31 March 2019, the total value of your benefits as at 31 March 2019 includes any late retirement increase due in accordance with **current** actuarial factors, which may change in the future. Also, **Section 7** i.e. a projection to your NPA, has been intentionally left blank.

**What if I contribute to the LGPS under another employment?**

You will receive a separate statement in respect of each of your pensionable employments.

**What if I also have a deferred benefit under the LGPS?**

You will receive a separate statement for any deferred benefit you may have from an earlier period of LGPS membership.

**Can I pay more to increase my benefits?**

There are two in-house options available to you. You can either make Additional Voluntary Contributions (AVC) or you can elect to purchase additional pension by making Additional Pension Contributions (APC). For further information, please contact the Pension Fund.

**Why is my Annual Allowance (Pension Input Amount) shown as 'zero'?**

When assessed in line with HMRC regulations, the increase in the value of your benefits as at 5 April 2018 (as revalued in line with the appropriate cost of living index) is greater than the calculation undertaken as at 5 April 2019.

## Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

**Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn gallu gweithio oherwydd salwch?**

Os ydych wedi bod yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch a'ch bod wedi derbyn llai o dâl neu ddim tâl o ganlyniad, **NI** chaiff hynny unrhyw effaith ar y pensiwn rydych yn ei gronni. Os yw eich cyflogaeth wedyn yn dod i ben ar sail salwch parhaol, bydd eich buddion ymddeol yn dod yn daladwy'n syth heb ostyngiad ar ôl derbyn ardystiad gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig Annibynnol (YMCA) a benodir gan naill ai eich Cyflogwr neu'r Gronfa Bensiwn. Am ragor o wybodaeth am y broses salwch, cysylltwch â'ch **Cyflogwr**.

**A yw fy nidyniadau Gorchymyn Rhannu Pensiwn / Cynllun yn Talu wedi eu cynnwys?**

Does **DIM** addasiad wedi ei wneud i'r buddion a ddangosir ar eich datganiad os ydynt wedi bod yn destun Gorchymyn Rhannu Pensiwn (yn dilyn ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil), neu os ydych wedi dewis i'r Cynllun dalu'r dreth sy'n ddyledus ar ôl i chi fynd dros y Lwfans Blynyddol. Os yw hyn yn berthnasol i chi, bydd y Gronfa Bensiwn yn cysylltu â chi ar wahân.

**A yw fy natganiad yn darparu ar gyfer unrhyw amddiffyniad Tanategu?**

**NID** yw'r rhagamcanion a ddangosir ar eich datganiad yn darparu ar gyfer unrhyw addasiad o safbwynt Tanategu. Nid yw'r tanategu ond yn berthnasol os oeddech chi'n aelod actif o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2012 a'ch bod o fewn 10 mlynedd o'ch OPA a ddiogelir (Cynllun 2008), h.y. dros 55 oed, **heb fod wedi cael** toriad parhaus mewn aelodaeth actif o Gynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus o fwy na 5 mlynedd (ar ôl 31 Mawrth 2012); a **DIM** yn derbyn unrhyw fuddion yn y CPLlL cyn eich OPA, a byddwch yn gadael gyda hawl i'ch buddion yn syth.

Os yw tanategu yn berthnasol i chi, bydd cyfrifiad yn cael ei wneud ar y dyddiad yr ydych yn rhoi'r gorau i gyfrannu i'r cynllun (neu eich OPA wedi ei ddiogelu os bydd hynny'n gynt), i wirio bod y pensiwn yr ydych wedi'i gronni (neu, os ydych wedi bod yn adran 50/50 y cynllun ar unrhyw adeg, y pensiwn y byddech wedi'i gronni pe baech wedi bod erioed ym Mhrif adran y cynllun) **o leiaf yn gyfartal** â'r hyn a byddech wedi ei dderbyn pe bai'r cynllun heb ei newid ar 1 Ebrill 2014. Os **NAD** o leiaf yn gyfartal, bydd y gwahaniaeth yn cael ei ychwanegu at eich cyfrif pensiwn Cyfartaledd Gyrfa.

## Frequently Asked Questions

**What happens if I am unable to work because of an illness?**

If you have been absent from work because of an illness and you have received reduced or nil pay as a result, there will be **NO** affect to your pension build up. If your employment is then terminated on the grounds of permanent ill health, your retirement benefits will become payable immediately at an unreduced rate upon certification from an Independent Registered Medical Practitioner (IRMP) appointed by either your Employer or the Pension Fund. For further information on the ill health process, please contact your **Employer**.

**Has my Pension Sharing Order / Scheme Pays deduction been applied?**

**NO** adjustment has been made to the benefits shown on your statement if they have been subject to a Pension Sharing Order (following a divorce / dissolution of a civil partnership) or if you have made an election for the Scheme to pay the tax charge due after you have exceeded the Annual Allowance. If this applies to you, the Pension Fund will contact you separately.

**Does my statement provide for any Underpin protection?**

The projections shown on your statement do **NOT** provide for any Underpin adjustment. The underpin only applies if you were an active member of the Scheme on 31 March 2012 and you were within 10 years of your protected (2008 Scheme) NPA i.e. over age 55, having **NOT** had a continuous break in active membership of a Public Service Pension Scheme of more than 5 years (after 31 March 2012); **NOT** drawn any benefits in the LGPS before your protected NPA and you leave with an immediate entitlement to benefits.

If the underpin applies to you, a calculation will be performed at the date you cease to contribute to the scheme (or at your protected NPA if earlier), to check that the pension you have built up (or, if you have been in the 50/50 section of the scheme at any time, the pension you would have built up had you always been in the Main section of the scheme) is at **least equal** to that which you would have received had the scheme not changed on 1 April 2014. If **NOT** at least equal, the difference in your benefits will be added to your CARE pension account.

# Diogelu Data

Mae Cyngor Caerdydd, fel awdurdod Gweinyddu Cynillun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn rheolwr data o dan y Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol.

Mae hyn yn golygu ein bod yn storio, cadw a rheoli eich gwybodaeth bersonol yn unol â gofynion y Llywodraeth i'n helpu i reoli'ch hawliau pensiwn. I wneud hyn, weithiau mae'n rhaid i ni rannu'ch gwybodaeth gyda rhai pobl neu sefydliadau, ond dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y byddwn yn gwneud hynny.

Am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn cadw eich gwybodaeth, pwy rydym yn ei rhannu â, a pha hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan y Gronfa Bensiwn:
www.cronfabensiwncaerdyddarfro.org.uk

# Data Protection

Cardiff Council, as the administering authority of the Local Government Pension Scheme (LGPS) for the Cardiff and Vale of Glamorgan Pension Schemes, is a data controller under the General Data Protection Regulations.

This means we store, hold and manage your personal information in line with Government requirements to help us manage your pension rights. In order to do this, we sometimes have to share your information with certain people or organisations, but will only do so in limited circumstances.

For more information about how we hold your information, who we share it with and what rights you have to request information from us, please visit the Privacy Notice on the Pension Fund website: **www.Cardiffandvalepensionfund.org.uk**